

Gyda diolch i'n noddwyr trwy'r flwyddyn:

Tai Wales & West Housing

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru
Part Funded by Welsh Government

codi

TPAS CYMRU
You matter | Ti'n cyfri

Rhaglen y Gynhadledd*

**yn amodol ar newidiadau*

Noson Ychwanegol Opsiynol – Dydd Mawrth 10 Tachwedd 2026

Amser	Sesiwn
4.00pm - 5.00pm	**Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd a'r Gwesty**
5.00pm – 5.45pm	**CCB TPAS Cymru**
7.00pm	**Cinio Anffurfiol ac Adloniant** *(i'r rhai sydd wedi archebu lleoedd preswyl)*

Dydd Mercher 11 Tachwedd 2026

Amser	Sesiwn
8.45 – 10:30am	**Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd, Lluniaeth a Rhwydweithio**
Croeso i'r Gynhadledd – Gosod yr olygfa David Wilton, Prif Weithredwr TPAS Cymru	
Yn agor y gynhadledd – ein siaradwr gwadd o Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Michelle Morris	
Gwell Gwasanaethau, Gwell Canlyniadau: dysgu o gwynion ym maes tai Gwrandewch ar Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Michelle Morris, yn y sgwrs agoriadol hon sy'n ysgogi meddwl. Bydd yn archwilio'r gwersi sy'n dod i'r amlwg o gwynion, gwaith achos ac adolygiadau ar draws y sector tai cymdeithasol. Dysgwch am y themâu cyffredin sy'n sail i fethiannau mewn gwasanaethau, y cyfleoedd i wella, a'r camau ymarferol y dylai landlordiaid eu cymryd er mwyn darparu gwasanaethau gwell a chanlyniadau gwell i denantiaid a thrigolion.	

Y Ddadl Banel Agoriadol Fawr

Gwella Pethau: Ar beth y dylai tai cymdeithasol ganolbwyntio yn 2027 a thu hwnt?

Clywch gan ein panel o Denantiaid am yr hyn sy'n bwysig iddynt, heriwch eich meddwl eich hun, a rhannwch eich barn ar yr hyn sydd angen newid. Wrth i Gymru wynebu newidiadau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol, ar beth y dylai landlordiaid cymdeithasol ganolbwyntio nesaf?

Y tu hwnt i fforddiadwyedd rhent a diogelwch adeiladau, beth sydd bwysicaf i denantiaid? O ansawdd gwasanaethau ac atgyweiriadau i gymuned, cyfranogiad, technoleg a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb – clywch yn uniongyrchol gan denantiaid sydd â phrofiadau a safbwyntiau gwahanol.

12.00pm-1.15pm	**Cinio, Arddangosfeydd, a Rhwydweithio**

Sesiwn Gweithdy A: 1.15pm – 2.30pm
Eich dewis o sesiynau gweithdy

A1	**Ydi Safon Ansawdd Tai Cymru (SACT) yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i gartrefi a bywydau tenantiaid?** Clywch gan ein panel wrth iddynt rannu mewnwelediad a gwybodaeth. Cewch hefyd glywed diweddariad gan Lywodraeth Cymru a darganfod beth mae data cydymffurfio yn ei ddweud wrthym am y gwaith a gyflawnir gan landlordiaid. Ydi landlordiaid yn canolbwyntio ar welliannau y mae tenantiaid yn eu gwerthfawrogi fwyaf? Faint o ddylanwad sydd gan denantiaid ar raglen SACT? **Siaradwyr:** Sgwrs Banel
A2	**Mapio Cynefin: Dod o Hyd i Ymdeimlad o Berthyn, Adeiladu Cymunedau Cryfach** Beth sy'n gwneud i rywle deimlo fel cartref? Mae'n ymwneud â mwy na'r adeiladau yr ydym yn byw ynddynt. Gall cartref lunio ein hunaniaeth, ein hymdeimlad o berthyn, lles, a'n cysylltiad â'r bobl a'r lleoedd o'n cwmpas. Yn y gweithdy rhyngweithiol hwn, byddwn yn archwilio'r cysyniad Cymreig o gynefin, gan archwilio sut mae ein hamgylchedd, perthnasoedd ac ymdeimlad o le yn dylanwadu ar ein llesiant a beth mae'n ei olygu i deimlo'n wirioneddol gartrefol. Ar lefel unigol, gall cynefin olygu rhywbeth gwahanol iawn, felly gadewch i ni weld beth sy'n ein huno. **Siaradwyr:** Cwmpas
A3	**Arfer Ymgysylltu â Thenantiaid: O ymgysylltu i allu cymunedol** Heriodd Prosiect y 3 Cymuned – menter gyda Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a'r daliad tai Cartrefi Cymoedd Merthyr, Trivallis a Cymoedd i'r Arfordir – y modelau modern o cwestiynau â thenantiaid. Mae'n gofyn: beth sy'n dod yn well pan fydd sefydliadau'n rhoi'r gorau i ateb am eu gwasanaethau yn unig, ac yn dechrau holi am eu dewis, eu prosiect a'u gwaith ar gyfer eu cymdogaeth? Mae'r Prosiect yn dangos sut y gall sgyrsiau bach arwain at donnau mawr: canolfannau cymunedol wedi'u hail-actifadu, grwpiau cymdeithasol newydd wedi'u ffurfio, trigolion yn ennill sgiliau a chyflogaeth, asedau lleol wedi'u diogelu a phartneriaethau cryfach wedi'u hadeiladu. Bydd y sesiwn hon yn ddysgu hanfodol i unrhyw un sydd â diddordeb mewn llais tenantiaid, cyd-gynhyrchu ac arfer tai dan arweiniad y gymuned. **Siaradwyr:** Prosiect y 3 Cymuned

A4	**Y prif faterion y mae Rheoleiddwyr Tai yn eu gweld yng Nghymru: beth mae hyn yn ei olygu i Gymdeithasau Tai a'u Tenantiaid** Cyfle i gwrdd â thîm Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am reoleiddio cymdeithasau tai yng Nghymru, ac i glywed y diweddariadau diweddaraf. Dysgwch beth mae'r rheoleiddwyr yn ei weld ac yn disgwyl ei weld, a beth mae hynny'n ei olygu yn ymarferol i gymdeithasau tai fel landlordiaid ac i denantiaid. **Siaradwyr**: Uwch-swyddogion, Tîm Rheoleiddio Llywodraeth Cymru
A5	**Sesiwn Caffi Anabledd ar Hygyrchedd ac Addasiadau: Beth sydd angen newid i sicrhau dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn?** Ymunwch â ni ar gyfer sesiwn sy'n canolbwyntio ar addasiadau a hygyrchedd mewn cartrefi cymdeithasol. Byddwn yn rhannu diweddariadau am ein prosiect hyd yma, yn trafod pwysigrwydd cynnwys tenantiaid anabl mewn sgyrsiau am eu hanghenion a'u cartrefi, ac yn ystyried beth sydd angen newid i sicrhau bod gan bawb gartref sy'n addas iddynt fyw ynddo'n gyfforddus. **Siaradwyr:** Tai Pawb
A6	**Mwy na Symud: Helpu Pobl Hŷn i Ffynnu** Sut gall symud cartref gefnogi annibyniaeth a llesiant yn ddiweddarach mewn bywyd? Mae'r sesiwn hon yn archwilio sut y gall symud i gartref o faint mwy addas a thai sy'n addas i bobl hŷn helpu pobl hŷn i aros yn egnïol, yn gysylltiedig ac yn annibynnol. Gan dynnu ar brofiadau preswylwyr, bydd Cyngor Caerdydd yn dangos sut mae ei lety ar gyfer pobl hŷn yn cynnig byw'n annibynnol o fewn cymuned gefnogol, gan leihau unigedd cymdeithasol a chreu lleoedd cynhwysol lle gall pobl hŷn ffynnu. **Siaradwyr:** Cyngor Caerdydd
2.30pm - 3:15pm	**Egwyl** Lluniaeth, Arddangosfeydd a Rhwydweithio
Sesiwn Gweithdy B: 3.15pm-4.30pm **Eich dewis o sesiynau gweithdy**	
B1	**Fforddiadwyedd rhent: beth yw'r problemau a beth yw'r atebion?** Mae fforddiadwyedd rhent yn bryder allweddol i denantiaid a landlordiaid ledled Cymru. Bydd y sesiwn dreiddgar hon yn archwilio realiti rhenti a thaliadau gwasanaeth, yr heriau sy'n wynebu tenantiaid, a'r hyn y gellir ei wneud i sicrhau bod rhenti yn deg ac yn fforddiadwy. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gall tenantiaid gael dweud eu dweud yn ystyrlon wrth bennu rhenti, gan gynnig enghreifftiau ymarferol o ddulliau ymgysylltu o bob rhan o Gymru. **Siaradwyr**: Sgwrs Banel
B2	**Rhoi cynnig ar grefftau hawdd wrth addurno eich blwch cofroddion bach eich hun, sydd wedi'i lunio fel 'cartref'!** ***Wedi ei ailadrodd am 4.30pm*** Mae cartref yn fwy na lle i fyw ynddo; mae'n adlewyrchu pwy ydym ni, yr hyn rydym yn ei fwynhau, ein hatgofion, a'r pethau sy'n agos at ein calonnau. Dewch i'r sesiwn celf a chrefft hon – sy'n anffurfiol, hamddenol ac hawdd ei ddilyn – cewch gyfle i addurno eich blwch bach eich hun, sydd wedi'i lunio fel 'cartref' ac yn addas ar gyfer cadw atgofion. Nid oes angen unrhyw brofiad artistig arnoch – dewch draw, rhowch gynnig arni, ac efallai y gallwch ddefnyddio celf a chrefft fel ffordd o ymgysylltu â'ch tenantiaid neu'ch cymuned, a rhannu gwybodaeth â hwy. **Hyrwyddwyr:** TPAS Cymru

B3	**Adfer yn y Gymuned: Cysylltiad, Dewis a Herio Stigma** Beth sy'n helpu pobl i ailadeiladu hyder, teimlo'n gysylltiedig a symud ymlaen wrth wynebu afiechyd meddwl neu gaethiwed? Mae'r gweithdy hwn yn archwilio sut y gall cymunedau a gwasanaethau wneud gwahaniaeth gwirioneddol trwy gymorth hygyrch, dewis personol a dealltwriaeth. Wedi'i gyflwyno gan Hybiau Cwm Taf Adferiad a Gwasanaeth 'Dynol o Hyd', bydd y sesiwn yn dangos sut mae cymorth cymunedol yn lleihau unigedd ac yn helpu pobl i gael mynediad at gymorth pan fydd ei angen arnynt. Darganfyddwch sut mae ymgyrch 'Dynol o Hyd' yn herio stigma a pham mae gwrando ar brofiadau byw yn allweddol i greu gwasanaethau mwy cynhwysol a thosturiol lle mae pawb yn cael eu trin ag urddas a pharch. **Siaradwyr:** Adferiad
B4	**Y Ddeddf Diogelwch Adeiladau ac Ymgysylltu â Thenantiaid – beth mae hyn yn ei olygu i Denantiaid a Landlordiaid** Dysgwch gan swyddogion Llywodraeth Cymru beth mae'r Ddeddf Diogelwch Adeiladau (Cymru) newydd yn ei olygu i denantiaid a landlordiaid yng Nghymru. Rhannwch eich barn ar sut y dylai preswylwyr gael llais cryfach o ran diogelwch adeiladau, a pha wybodaeth sydd ei hangen arnynt. **Siaradwyr:** Llywodraeth Cymru
B5	**Cynhwysiant Digidol ac Ymgysylltu â Thenantiaid: Heb adael neb ar ôl** Mewn byd digidol, mae cynhwysiant digidol yn fwy na rhywbeth 'braf ei gael' yn unig; mae'n rhan hanfodol o aros mewn cysylltiad. Ledled Cymru, mae tenantiaid a landlordiaid cymdeithasol wedi bod yn gweithio gyda'i gilydd i oresgyn rhwystrau, ac i feithrin dealltwriaeth a hyder wrth ddefnyddio dulliau digidol o ymgysylltu a chyfathrebu. Yn y sesiwn ryngweithiol hon, ymunwch â Danielle a Gem o Hafod i ddysgu am eu gwaith hanfodol i sicrhau bod pawb yn gallu cael eu cynnwys yn ddigidol. **Siaradwyr:** Hafod
B6	**Newidiadau Bach, Effaith Fawr: Tyfu'r Iaith Gymraeg Gyda'n Gilydd** Mae'r sesiwn anffurfiol a deniadol hon yn agored i bawb – p'un a ydych yn siarad Cymraeg, yn dysgu, neu ddim yn siarad Cymraeg o gwbl. Dewch i archwilio beth y gall y sector tai, cymunedau, a phob un ohonom ei wneud i helpu'r Gymraeg i ffynnu, a pha wahaniaeth y gall newidiadau bach yn ein hymddygiad bob dydd ei wneud. Byddwch yn gadael gyda syniadau ymarferol ac ysbrydoliaeth i chwarae eich rhan wrth gefnogi uchelgeisiau Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg, ac i helpu'r Gymraeg i ddod yn rhan fwy naturiol o fywyd bob dydd. **Siaradwyr:** Mentrau Iaith Cymru
4.30pm	**Diwedd Ffurfiol Diwrnod 1**

4.30pm – 6pm	**Newydd ar gyfer 2026!** **Tu hwnt i'r Prif Raglen: Sesiynau ychwanegol dewisol** • ***Cathy Come Home:*** **Dangosiad ar achlysur 60fed pen-blwydd y ddrama deledu arloesol gan y BBC** Cafodd y rhaglen ei darlledu am y tro cyntaf ar 16 Tachwedd 1966, a'i gwylio gan 12 miliwn o bobl; newidiodd farn Prydain ynglŷn â digartrefedd. Roedd ei heffaith yn syth, gan dynnu sylw'r cyhoedd at ddigartrefedd a'r canlyniadau trasig i deuluoedd a oedd yn cael eu hunain heb le i fyw. • **Rhoi cynnig ar grefftau hawdd wrth addurno eich blwch cofroddion bach eich hun, sydd wedi'i lunio fel 'cartref'!** ***Ailadroddiad o weithdy B2***
7.00pm	**Cinio'r Gynhadledd, ac adloniant i ddilyn** *(ar gyfer y rhai sydd wedi archebu lleoedd preswyl)*

DYDD 2 AR Y DUDALEN NESAF > > >

Dydd Iau 12 Tachwedd 2026

Amser	Sesiwn
8.30 – 9.30am	**Cofrestru ar gyfer y Gynhadledd**
9.30 – 10.00am	**Y Sesiwn Agoriadol Fawr**
	Datgelu canlyniadau diweddaraf Arolwg Blynyddol 'Pwls Tenantiaid' ar gyfer Cymru gyfan: Byddwch y cyntaf i ddarganfod beth mae tenantiaid wedi'i ddweud Ymunwch â ni ar gyfer lansiad unigryw o ganfyddiadau ein harolwg blynyddol cenedlaethol, 'Pwls Tenantiaid'! Byddwch y cyntaf i glywed beth mae tenantiaid wedi'i ddweud yn ein hymchwil ddiweddaraf, ac archwiliwch y prif themâu sydd wedi diffinio 2026. Dyma'ch cyfle i fod ar y blaen a deall y tueddiadau, yr heriau a'r cyfleoedd a fydd yn llunio dyfodol tai. **Siaradwyr**: TPAS Cymru
Sesiwn Gweithdy C: 10.00am – 11.15am Eich dewis o sesiynau gweithdy	
C1	**Archwilio Dulliau Ymgysylltu Arloesol: Beth Allai Weithio i Chi?** Sut gallwn ni adeiladu perthnasoedd cryfach gyda thenantiaid a chymunedau a rhoi llais go iawn iddynt wrth lunio gwasanaethau? Archwiliwch ddulliau ymgysylltu arloesol a chlywch beth mae eraill yn rhoi cynnig arno. Casglwch syniadau ymarferol ar gyfer cyrraedd grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol, meithrin ymddiriedaeth, annog cyfranogiad, a throi adborth gan denantiaid yn newidiadau sy'n gwneud gwahaniaeth i wasanaethau. **Siaradwyr:** TPAS Cymru
C2	**Cryfhau Llais y Tenantiaid: Dau Ddarparwr Tai yn Rhannu'r Hyn sy'n Gweithio** Sut gall darparwyr tai wneud ymgysylltu â thenantiaid yn ystyrlon ac annog mwy o drigolion i gymryd rhan? Clywch gan ddau landlord cymdeithasol am eu dull gweithredu. Bydd Beacon Cymru yn rhannu ei ddull o gynnal ymgynghoriadau ar ddiogelwch adeiladau, gwersi o'i brosiect peilot, a'r heriau sy'n gysylltiedig ag ymgysylltu â thrigolion. Bydd Codi yn cyflwyno ei 'Fframwaith Dylanwadu', gan gynnwys ei ddull gweithredu sy'n "fawr ond yn lleol" a'i bileri strategol. Gyda'i gilydd, byddant yn archwilio dulliau ymarferol o annog tenantiaid i gymryd rhan, gyda chyfleoedd i rannu adborth a syniadau. **Siaradwyr:** Beacon Cymru a Codi
C3	**Torrwch Gostau, Nid Cysur: Awgrymiadau ymarferol ar arbed ynni i'ch helpu i aros yn gynnes, yn ddiogel ac yn iach** Ydych chi eisiau lleihau eich biliau ynni heb deimlo'n oer? Ymunwch â National Energy Action Cymru ar gyfer gweithdy rhyngweithiol a hwyliog, sy'n llawn awgrymiadau ymarferol i'ch helpu i arbed arian tra'n cadw eich cartref yn gynnes, yn ddiogel ac yn gyfforddus.

	Byddwn yn chwalu mythau am arbed ynni ac yn darganfod sut i gael y gorau o'ch system wresogi, lleihau drafftiau, a defnyddio offer cartref yn effeithlon. Byddwch yn gadael gyda ffyrdd ymarferol o leihau gwastraff ynni a gostwng biliau, heb orfod aberthu cysur. **Siaradwyr**: National Energy Action Cymru
C4	**Arfer Ymgysylltu â Thenantiaid: Gwella gwasanaethau atgyweirio trwy ymgysylltu â thenantiaid** Beth sy'n digwydd pan fydd tenantiaid yn cymryd rhan wirioneddol mewn gwella gwasanaethau atgyweirio? Clywch gan ddau o'r rhai a gyrhaeddodd y rownd derfynol yng Ngwobrau TPAS Cymru – Trivallis a Tai Tarian – wrth iddynt rannu sut mae gweithio gyda tenantiaid wedi helpu i wella gwasanaethau atgyweirio i bawb. Darganfyddwch syniadau ymarferol, dulliau a gwersi y gallwch eu cymryd yn ôl i'ch sefydliad eich hun. **Siaradwyr:** Tai Tarian a Trivallis
C5	**Gweithredoedd, nid Geiriau: Creu Sector Tai Mwy Cyfartal** A yw lleisiau tenantiaid o leiafrifoedd ethnig yn cael eu clywed, a sut gall sefydliadau tai fynd i'r afael yn well â hiliaeth ac anghydraddoldeb? Ymunwch ag Evelyn James, Rheolwr Gwrth-hiliaeth yn Tai Pawb, ar gyfer sesiwn ryngweithiol sy'n archwilio sut i droi ymrwymiadau gwrth-hiliaeth yn gamau gweithredu ystyrlon. Dysgwch am ffyrdd ymarferol o herio anghydraddoldebau, defnyddio profiad bywyd a data i ysgogi newid, ac ymgorffori gwrth-hiliaeth ym mhractis tai o ddydd i ddydd. **Siaradwyr**: Tai Pawb
11.15am – 12.00pm	**Egwyl** Lluniaeth a Rhwydweithio
Sesiwn Gweithdy D: 12.00pm – 1.00pm **Eich dewis o sesiynau gweithdy**	
D1	**Cymunedau Mwy Diogel, Atebion Cryfach: Mynd i'r Afael ag Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gyda'n Gilydd** Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r mater rhif un y mae tenantiaid o bob rhan o Gymru wedi dweud wrthym y byddent yn ei newid yn eu cymunedau. Ond sut y gallwn fynd i'r afael ag ef? Ymunwch ag arbenigwyr Case Management Solutions Group ar gyfer gweithdy rhyngweithiol, lle byddant yn rhannu mewnwelediadau ac enghreifftiau o'u gwaith, yn trafod pwysigrwydd cyfathrebu dynol ochr yn ochr ag atebion technolegol, ac yn rhoi tenantiaid yn gyntaf. Dyma un nad ydych eisiau ei golli. **Siaradwyr**: Case Management Solutions Group
D2	**Sut gallwn ni helpu tenantiaid i ddeall ôl-osod?** Sut allwn ni helpu tenantiaid i deimlo eu bod yn wybodus ac yn cael eu cefnogi drwy welliannau cartref? Bydd Cynon-Taf yn rhannu eu profiad o ddatblygu'r Hwb Gwella Cartrefi, gan archwilio adnoddau ymarferol a chyfathrebu da ynghylch ôl-osod a chartrefi sy'n effeithlon o ran ynni.

	Bydd trafodaeth ryngweithiol yn archwilio beth mae tenantiaid eisiau ei wybod, yn nodi bylchau mewn canllawiau presennol ac yn casglu syniadau ar gyfer adnoddau hygyrch a rennir sy'n cefnogi preswylwyr cyn, yn ystod ac ar ôl gwelliannau. **Siaradwyr:** Cynon Taf Community Housing Group
D3	**Gweithdy Symud ac Anadlu Ymwybodol – dewch i roi cynnig arno!** Cymerwch amser i ymlacio, adnewyddu eich egni ac adfywio yn y gweithdy tawel hwn. Ymunwch â Kallika Bruce, athrawes ioga ac ymarferydd lles, ar gyfer dau sesiwn flasu 20 munud sy'n canolbwyntio ar symud yn ymwybodol ac anadlu. Gan ddefnyddio symudiadau sy'n hygyrch ac yn gynhwysol, cewch eich arwain trwy symudiadau, technegau anadlu, a dulliau ymlacio sy'n addas i bawb. Byddwch yn gadael y sesiwn hon gydag awgrymiadau ymarferol y gallwch eu defnyddio gartref i ymgorffori ymwybyddiaeth ofalgar yn eich bywyd. Nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol. **Hyrwyddwr**: Breathe Studio Llandrindod
D4	**Pwy yw gofalwyr di-dâl a sut gallwn ni eu cefnogi'n well?** Mae tai yn chwarae rhan bwysig wrth alluogi pobl i ddarparu gofal yn ddiogel, yn annibynnol ac yn gynaliadwy. Amcangyfrifir bod rhwng 310,000 a 500,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, sy'n cefnogi teulu, ffrindiau a chymdogion bob dydd. Ac eto, mae llawer yn wynebu pwysau ariannol, heriau wrth geisio cael gafael ar gymorth, ac anawsterau wrth geisio cydbwyso gwaith a gofalu. Ymunwch â ni ar gyfer y sesiwn hon i archwilio'r cysylltiadau rhwng tai a gofalu di-dâl, a sut y gall landlordiaid, tenantiaid a chymunedau nodi, deall a chefnogi gofalwyr yn eu cymunedau yn well. **Siaradwyr:** Gofalwyr Cymru
D5	**Amrywiaeth Niwrolegol ac Ymgysylltu â Thenantiaid** Ydy gwasanaethau tai yn gweithio i bawb? Bydd y sesiwn ryngweithiol hon, a gynhelir ar y cyd â Niwrowahaniaeth Cymru a Bron Afon, yn archwilio profiadau tenantiaid niwro-wahanol ac yn gofyn beth allwn ni ei wneud yn wahanol. O gyfathrebu ac ymgysylltu i wasanaethau a chymorth, dewch i ffwrdd gyda syniadau ymarferol ar gyfer creu tai mwy cynhwysol. Mae hon yn sesiwn i bawb ar sut i gyflawni cynhwysiant ystyrlon. **Siaradwyr:** Niwrowahaniaeth Cymru a Cymdeithas Tai Bron Afon
1.00 – 2.00pm	**Cinio, Arddangosfeydd a Rhwydweithio**

Y Sesiwn Olaf Hanfodol: 2pm – 3.15pm

Oes ots neu ddim? - Yn ôl oherwydd galw poblogaidd!

Byddwch yn rhan o'r sesiwn olaf a deniadol hon, lle rydym am glywed eich barn ar faterion cyfoes (a dadleuol!) sy'n ymwneud ag ymgysylltu â thenantiaid. Gofynnwn i chi hefyd a yw'r materion hyn yn bwysig i chi ai peidio – dyma'ch cyfle chi i leisio'ch barn. Mae hon yn sesiwn hwyliog a rhyngweithiol, wedi'i chynllunio i dynnu sylw at gyfranogiad tenantiaid ac ysgogi trafodaeth ar y pwnc, gan ganiatáu ar gyfer sgwrs onest ac agored.

Hyrwyddwyr: TPAS Cymru

3.15pm	**Diwedd y Gynhadledd ac Ymadael**